

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Aneurin Bevan**

Practis Deintyddol Devon Place

2 Chwefror 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

| | | |
|----|---|----|
| 1. | Cyflwyniad..... | 2 |
| 2. | Methodoleg | 2 |
| 3. | Cyd-destun..... | 4 |
| 4. | Crynodeb | 5 |
| 5. | Canfyddiadau | 6 |
| | Profiad y Claf..... | 6 |
| | Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru | 10 |
| | Rheolaeth ac Arweinyddiaeth..... | 13 |
| | Ansawdd yr Amgylchedd..... | 15 |
| 6. | Y Camau Nesaf..... | 16 |
| | Atodiad A..... | 17 |

1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddyd rhybudd o Bractis Deintyddol Devon Place yn 52 Devon Place, Casnewydd, NP20 4NU, yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ar 2 Chwefror 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru
- Rheoli ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisiau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda mae practisau yn bodloni'r safonau yn *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru*¹.

Gan fod practis deintyddol Devon Place yn bractis cymysg, sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a GIG, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau (Diwygio) 2011.

Adolygwyd dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau yn ystod yr arolygiad, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC

¹ Daeth *Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru* i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.
<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Gwneud%20yn%20Dda%2C%20Gwneud%20yn%20Well%20%E2%80%93%20Safonau%20ar%20gyfer%20Gwasanaethau%20Iechyd%20Cymru%20%28Ebrill%202010%29.pdf>

- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth a gwefan y practis
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn darparu trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Caiff y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd eu hysbysu o unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol drwy gyfrwng llythyr gweithredu ar unwaith. Caiff canfyddiadau o'r math hwn eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill, o fewn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg ar y modd y gweithredir safonau yn y practis a ymwelwyd ar ddiwrnod yr arolygiad.

3. Cyd-destun

Mae practis deintyddol Devon Place yn darparu gwasanaethau ar gyfer tua 4,700 o gleifion preifat a Denplan, a thua 800 o gleifion GIG, yng nghanol dinas Casnewydd. Mae'r practis yn rhan o wasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys pum deintydd, dau hylenydd deintyddol, un therapydd deintyddol, un rheolwr practis, dau dderbynydd, pedair nyrs ddeintyddol wedi'u hyfforddi, ac un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deintyddiaeth breifat
- Deintyddiaeth plant y GIG
- Deintyddiaeth frys y GIG
- Deintyddiaeth breifat yn y cartref
- Deintyddiaeth gosmetig
- Deintyddiaeth adferol
- Deintyddiaeth brosthetig
- Mewnblaniadau (preifat yn unig)
- Orthodonteg breifat
- Llifanu dannedd
- Contract deintyddiaeth yn y cartref y GIG
- Triniaethau gwrth-grychau (pigiadau Botox a llenwadau croen)

4. Crynodeb

Edrychodd AGIC ar sut mae practis deintyddol Devon Place yn bodloni'r safonau gofal yn y ddogfen 'Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru'.

Yn ddiethriad, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon dros ben ar safon y driniaeth a ddarperir. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu triniaeth. Roedd angen gwella rhai agweddau ar wefan y practis, y wybodaeth a ddarperir am y gwasanaeth y tu allan i oriau gwaith, a'r weithdrefn gwyno. Fodd bynnag, roedd y cleifion ar y cyfan yn hynod o fodlon.

Yn gyffredinol, roeddem o'r farn bod y practis yn cael ei redeg â'r bwriad o ddarparu gwasanaeth diogel ac o ansawdd da i gleifion. Roedd cofnodion cleifion o ansawdd arbennig o uchel. Roedd angen gwneud nifer o welliannau er mwyn sicrhau bod y practis yn bodloni'r holl safonau perthnasol.

Roedd y practis yn cael ei redeg yn dda, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddi.

Roedd safle'r practis yn darparu amgylchedd diogel a hygyrch i gleifion dderbyn triniaeth.

5. Canfyddiadau

Profiad y Claf

Yn ddieithriad, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon dros ben ar safon y driniaeth a ddarperir. Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn rhoi gwybodaeth fanwl iddynt am eu triniaeth. Roedd angen gwella rhai agweddau ar wefan y practis, y wybodaeth a ddarperir am y gwasanaeth y tu allan i oriau gwaith, a'r weithdrefn gwyno. Fodd bynnag, roedd y cleifion ar y cyfan yn hynod o fodlon.

Gwnaethom anfon holiaduron cleifion i'r practis, ac roedd 28 o gleifion wedi cwblhau'r rhain cyn ein harolygiad. Buom yn siarad hefyd â thri chlaf arall ar y diwrnod. Roedd y cleifion wedi'u cofrestru yn y practis ers rhwng chwe mis a 45 o flynyddoedd.

Dywedodd yr holl gleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gofal roeddent wedi'i dderbyn yn y practis, a dywedodd pob un ohonynt eu bod yn cael croeso gan y staff, ar wahân i ddau glaf a ddywedodd bod hynny'n digwydd "fel arfer". Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth gael eu gweld gan y deintydd. Roedd sampl o sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Gwasanaeth gwych. Rydw i'n ei argymhell"

"Practis proffesiynol ac effeithlon iawn gyda gofal cwsmeriaid ardderchog"

"Cyfeillgar iawn"

"Tybed pa mor gystadleuol yw'r prisiau yn y practis hwn o'i gymharu â phractisau deintyddol eraill – fodd bynnag, nid wyf wedi cael rheswm i newid o'r practis hwn. Byddem yn gofyn pe byddai'r practis yn gallu peidio â rhoi gimics, megis y cylchlythyr a cherdyn cyfarchion y tymor, i'w cwsmeriaid – gellid adlewyrchu'r arbediad mewn gostyngiad mewn prisiau wedyn"

"Mae'r practis yn cael ei redeg yn dda dros ben, yn broffesiynol a chyfeillgar, ac yn cadw'n gyfredol o ran arloesedd mewn triniaethau. Rwy'n ystyried ei fod yn ardderchog"

"Rydw i'n cael croeso mawr gan y tîm. Mae awyrgylch gwresog cyn gynted ag yr ydych chi'n cyrraedd"

"Mae'r practis yn lân eithriadol, a darperir ar gyfer eich holl anghenion. Rydw i'n ei argymell yn fawr"

"Rydw i'n cael gwasanaeth cyfeillgar, effeithlon a gofalgar bob amser. Does dim byd yn ormod o drafferth. Rydw i'n hyderus bod y triniaethau a ddarperir o'r safon uchaf"

"Practis ardderchog – bob amser yn fy hysbysu'n dda am driniaethau"

"Staff hyfryd"

Pan ofynnwyd i'r cleifion ynghylch gwybodaeth am driniaethau, dywedodd yr holl gleifion fod y tîm deintyddol yn esbonio'r driniaeth roedd ei hangen arnynt yn ddigon manwl. Dywedodd dau glaf y byddent yn hoffi derbyn mwy o wybodaeth am gostau triniaethau. Gwelsom fod rhestr prisiau wedi'i hychwanegu i'r man ystafell aros yn ddiweddar er gwybodaeth i gleifion. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol o ran gwybodaeth am driniaethau:

"Yr holl wybodaeth mae angen i mi wybod"

"Ydi – mae'r holl weithdrefnau a thriniaethau wedi'u hesbonio'n llawn"

"Dim y gost"

"Gall darparu rhestr prisiau o driniaethau unigol fod yn ddefnyddiol o ran archwiliadau a hylenydd"

"Mae'r deintydd a'r hylenydd bob amser yn ateb eich cwestiynau ac yn rhoi gwybod i chi beth maen nhw'n mynd i'w wneud"

Nid oedd chwarter y cleifion yn ymwybodol o sut i gael mynediad i'r gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau gwaith. Gwnaethom wirio neges peiriant ateb y practis y tu allan i oriau'r swyddfa, a chanfuom nad oedd unrhyw wybodaeth wedi'i recordio ynglŷn â phwy i gysylltu â nhw y tu allan i oriau gwaith. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod dwy linell ffôn a bod y wybodaeth ynglŷn â phwy i gysylltu â nhw y tu allan i oriau gwaith ar gael ar un llinell yn unig ar hyn o bryd. Roedd y practis yn bwriadu sicrhau bod y negeseuon peiriant ateb yn gyson ar y ddwy linell ffôn.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod y ddwy linell ffôn yn darparu gwybodaeth sydd yr un fath ac sy'n gyson ar gyfer cleifion, yn enwedig o ran gofal y tu allan i oriau gwaith.

Mae'r practis yn gweithredu system apwyntiadau hyblyg, ac roedd triniaethau arferol a thriniaethau brys ar gael. Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaethom siarad ag un claf oedd wedi cyrraedd yn hwyr, ond roedd y practis wedi llwyddo i wneud lle iddo ar ôl amser ei apwyntiad. Roedd y practis ar agor saith niwrnod yr wythnos, gan gynnig apwyntiadau rhwng 9 a.m. ac 1 p.m. ar ddydd Sadwrn, rhwng 10 a.m. a 2 p.m. ar ddydd Sul, a hyd 6.30 p.m. ar ddydd Mercher. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau yn hyblyg, a bod cleifion sy'n gweithio yn gallu trefnu apwyntiadau y tu allan i'w horiau gwaith. Roedd cleifion yn fodlon ar amseroedd apwyntiadau, a dywedodd un person wrthym fod y staff *"bob amser yn gyfeillgar a chymwynasgar os oes angen i chi aildrefnu apwyntiadau"*.

Er bod cleifion yn dangos eu bod yn fodlon ar y gwasanaethau ac nad oedd ganddynt gwynion, nid oedd tua un rhan o dair o'r cleifion a holwyd yn gwybod sut i wneud cwyn, pe byddai angen. Gwelsom fod crynodeb o'r weithdrefn gwyno wedi'i arddangos y tu ôl i'r ddesg yn y dderbynfa, ond nid oedd yn hawdd iawn i gleifion ei weld, ac nid oedd yn nodi sut y gallai cleifion wneud cwyn na phryd y byddent yn disgwyl cael ymateb llawn. Roedd y pecyn croeso i gleifion yn cael ei adolygu er mwyn iddo gynnwys gwybodaeth am gwynion, ond ar adeg yr arolygiad, nid oedd hon wedi'i chynnwys yn y pecyn hyd yma.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod y wybodaeth am gwynion ar gael yn rhwydd, ei bod yn cynnwys digon o fanylion, a'i bod yn gwbl amlwg i gleifion.

Gwnaethom edrych ar y polisi cwyno yn fanwl, a gwelsom nad oedd yn bodloni agweddau ar ofynion 'Gweithio i Wella'² ar gyfer cleifion y GIG. Yn unol â'r trefniadau hyn, dylid cydnabod derbyn cwynion o fewn deuddydd, yn hytrach na'r tri diwrnod a nodir gan y practis, a dylid rhoi ymateb o fewn 30 diwrnod gwaith. Nid oedd y polisi cwyno'n nodi'n glir y trefniadau ar wahân i gwynion gan gleifion preifat a chleifion y GIG ychwaith. Ar gyfer cleifion preifat, dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, dylid cydnabod derbyn cwyn o fewn tri diwrnod gwaith, dylid rhoi ymateb ysgrifenedig o fewn deg diwrnod gwaith, a dylid darparu manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Nid oedd y manylion hyn wedi'u cynnwys yng ngwybodaeth y practis ynghylch gwneud cwyn. Roedd diffyg gwybodaeth hefyd ynghylch sut y gallai cleifion gael eiriolaeth ar gyfer cwynion trwy eu Cyngor Iechyd Cymuned.

² Nod **Gweithio i Wella** oedd ei gwneud hi'n haws i gleifion a gofalwyr godi pryderon.

Cyflwynodd ddull unigol a mwy cyfannol, gan ddod â'r broses o reoli cwynion, digwyddiadau a honiadau at ei gilydd, yn seiliedig ar yr egwyddor 'archwiliwch unwaith, archwiliwch yn dda'.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod y trefniadau a'r amserlenni ar wahân i gleifion y GIG a chleifion preifat yn cael eu hamlinellu'n llawn yn y wybodaeth ynghylch gwneud cwyn. Dylai'r wybodaeth ynghylch gwneud cwyn gynnwys gwybodaeth hefyd am sut i gael eiriolaeth trwy'r Cyngor Iechyd Cymuned.

Gwelsom fod cleifion yn cael eu gwahodd i roi adborth i'r practis trwy gyfrwng holiaduron, ac roedd agweddau ar y practis wedi newid o ganlyniad.

Roedd amrywiaeth o ddefnydd hyrwyddo iechyd ar gael yn y manau clinigol. Gwelsom fod y practis yn hybu iechyd y geg da – er enghraifft, roedd deintyddion yn atgyfeirio i gynlluniau 'rhoi'r gorau i smygu'. Roedd 'pecynnau croeso' y practis yn cael eu cadw y tu ôl i ddesg y dderbynfa ac yn cael eu diweddarau. Gwnaethom awgrymu y dylai'r practis ystyried gosod rhai o'r pecynnau croeso yn y manau aros er mwyn i gleifion gael gafael arnynt yn haws.

Gwnaethom archwilio gwefan y practis cyn yr arolygiad, a gwelsom nad oedd elfennau ohoni'n cydymffurfio ag 'Egwyddorion Hysbysebu'n Foesebol' (Mawrth 2012) y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Mae'r canllawiau hyn yn nodi y dylid cynnwys manylion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol neu ddolen at wefan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar wefannau practisau deintyddol, ynghyd â'r weithdrefn gwyno a'r dyddiad y cafodd y wefan ei diweddarau ddiwethaf. Gwelsom nad oedd yr elfennau hyn ar wefan y practis.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod y wefan yn cydymffurfio â chanllawiau 'Egwyddorion Hysbysebu'n Foesebol' y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Roedd trosiant isel o staff, ac roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi bod yn gweithio yn y practis am flynyddoedd lawer. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn derbyn dilyniant o ran gofal, ac yn derbyn gofal gan yr un staff.

Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru

Yn gyffredinol, roeddem o'r farn bod y practis yn cael ei redeg â'r bwriad o ddarparu gwasanaeth diogel ac o ansawdd da i gleifion. Roedd cofnodion cleifion o ansawdd arbennig o uchel. Roedd angen gwneud nifer o welliannau er mwyn sicrhau bod y practis yn bodloni'r holl safonau perthnasol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion i'r pum deintydd oedd yn gweithio yn y practis, yn ogystal â nodiadau a wnaed gan aelodau eraill o'r tîm. Roeddem o'r farn bod y cofnodion o safon ardderchog ac yn cynnwys lefel y manylion sy'n ofynnol ar gyfer cofnodi gofal cleifion.

Roedd trefniadau addas wedi'u sefydlu ar gyfer defnyddio offer radiograffeg yn ddiogel. Roedd yr holl ddogfennau gorfodol ar gael ac yn gyfredol, gan gynnwys archwiliadau diogelwch, gwaith cynnal a chadw, profion, a hyfforddiant staff.

Roedd offer dadebru a chyffuriau pe byddai argyfwng o ran cleifion (cwympiadau) ar gael i'r staff yn y practis. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod pob aelod o'r staff ac eithrio un wedi derbyn yr hyfforddiant diweddaraf mewn adfywio cardio-pwlmonaidd.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod yr holl ymarferwyr deintyddol a staff gofal iechyd deintyddol yn diweddarau eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn dadebru bob blwyddyn o leiaf yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru.

Gwelsom fod cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu storio yn unol â'r gofynion cyfreithiol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn gwneud archwiliadau cyfnodol o ddyddiadau dod i ben, ond roedd hyn yn dibynnu ar fod y staff yn cofio gwneud hynny.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod system ffurfiol yn cael ei sefydlu ar gyfer newid cyffuriau sydd wedi dod i ben er mwyn sicrhau bod archwiliadau'n cael eu gwneud yn rheolaidd.

Gwelsom nad oedd midazolam yn cael ei waredu mewn modd priodol.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod y staff yn cael gwared ar midazolam yn ddiogel ac yn briodol.

Roedd dogfennaeth gontract wedi'i sefydlu ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel. Roedd silindrau nwy a chemegion yn cael eu storio'n ddiogel. Roedd offer ar gyfer gollyngiadau mercwri ar gael er mwyn ymdrin â gollyngiadau mercwri mewn modd priodol.

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer dadheintio'r offerynnau a ddefnyddir yn y practis, ac roeddem o'r farn eu bod yn dilyn arferion gorau yn y rhan fwyaf o achosion. Gwelsom fod gweithdrefnau priodol wedi'u sefydlu ar gyfer sterileiddio offerynnau. Gwelsom fod y cyfarpar a ddefnyddiwyd i ddadheintio offerynnau, megis yr awtoclaf, yn cael ei brofi'n ddyddiol, ac y cadwyd cofnodion yn unol â gofynion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.

Roedd polisi atal a rheoli heintiau amlwg ar waith, ond gwelsom nad oedd yn cynnwys 'asesiad ysgrifenedig o'r gwelliannau sydd angen eu gwneud er mwyn gwneud cynnydd o ran bodloni'r gofynion i sicrhau arferion gorau' (WHTM 01-05).

Argymhelliad

Dylai'r practis lunio asesiad ysgrifenedig o'r gwelliannau sydd angen eu gwneud er mwyn gwneud cynnydd o ran bodloni'r gofynion i sicrhau arferion gorau, yn ogystal â chynllun gweithredu, yn unol â WHTM 01-05.

Gwelsom fod sinciau golchi dwylo priodol a phenodol ym mhob deintyddfa ac yn yr ystafell ddadheintio er mwyn lleihau'r perygl o groes-heintio.

Gwelsom fod stamp dyddiad yn cael ei roi ar offerynnau sydd wedi'u diheintio i ddangos pryd y cawsant eu diheintio a'r dyddiad dod i ben, ac roedd y rhai a archwiliwyd o fewn y dyddiad.

Roedd y staff yn cynnal archwiliadau rheolaidd o ofynion rheoli heintiau, ac roeddent wedi rhoi system electronig ar waith yn ddiweddar er mwyn cofnodi hyn yn haws.

Roedd y practis yn defnyddio ffan echdynnu fel eu system awyru yn yr ystafell ddadheintio, a gwelsom ei bod wedi'i gosod fel bod y llif awyr yn newid o fod yn fudr i fod yn lân. Gwnaethom dynnu sylw'r prif ddeintydd at hyn yn syth, a stopiodd ddefnyddio'r ffan ar unwaith, gan wneud trefniadau i newid y llif awyr cyn gynted â phosibl.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod system awyru ddiogel a phriodol ar waith yn yr ystafell ddadheintio cyn gynted â phosibl, yn unol â chanllawiau WHTM 01-05.

Gwnaethom edrych ar gyfleusterau clinigol pob un o'r ystafelloedd triniaeth o fewn y practis, ac roedd y rhain yn cynnwys offer addas ar gyfer diogelwch cleifion a staff. Gwelsom fod y switsh ynysu ar gyfer y peiriant pelydr-X o fewn y parth rheoli. Roedd hyn yn golygu pe byddai offer pelydr-X yn peri pryder a bod yn rhaid i'r staff ddefnyddio'r switsh ynysu, byddai'n rhaid iddynt fynd i'r parth rheoli er mwyn cael ati.

Argymhelliad

Dylid ail-leoli'r switsh ynysu i fod y tu allan i'r parth rheoli.

Roedd cyflenwad nwy yn yr adeilad, a gwelsom fod y practis yn cadw cofnod o ddiogelwch nwy a bod archwiliadau priodol wedi'u cynnal.

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu cadw mewn cypyrddau dan glo y tu ôl i ddesg y dderbynfa. Roedd hyn yn golygu bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n ddiogel.

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Roedd y practis yn cael ei redeg yn dda, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu swyddi.

Roedd y practis yn cynnwys pum deintydd. Roedd y prif ddeintydd wedi bod yn y practis ers 2007. Roedd y rhan fwyaf o'r staff wedi bod yn gweithio yn y practis am flynyddoedd lawer.

Roedd gan y prif ddeintydd gyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r practis, ochr yn ochr â rheolwr y practis, gyda chymorth gan aelodau o'r tîm. Roedd rheolwr y practis wedi ymgymryd â'r cyllid yn ddiweddar yn rhan o'i swyddogaeth rheoli practis.

Gwelsom fod rhai o'r staff yn cyflawni sawl rôl wrth redeg y practis. Er enghraifft, gwnaethom siarad ag un nyrs ddeintyddol oedd wedi'i hyfforddi i helpu gyda dyletswyddau yn y dderbynfa hefyd. Roedd hyn yn golygu bod cynlluniau wrth gefn ar waith pe byddai staff yn absennol er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn ddidrafferth.

Roedd y staff yn gallu cael gafael ar y polisïau perthnasol o fewn y practis er mwyn sicrhau eu dealltwriaeth a sicrhau eu bod yn cymryd y camau gweithredu cywir. Gwelsom nad oedd pob polisi yn cynnwys dyddiad adolygu, felly ni allem fod yn sicr eu bod yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n barhaus.

Argymhelliad

Dylai'r practis sicrhau bod pob polisi yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod staff yn cael gafael ar wybodaeth sy'n gywir a chyfredol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddiant staff. Roedd y rhain yn cadarnhau bod amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi ar gael i'r staff sy'n berthnasol i'w swyddogaethau. Nid oedd y practis yn cadw cofnod 'datblygiad proffesiynol parhaus' ar gyfer eu gweithwyr deintyddol proffesiynol, a dywedwyd wrthym fod aelodau staff unigol yn gyfrifol am fonitro eu datblygiad proffesiynol parhaus eu hunain. Gwnaethom awgrymu y gallai'r practis gadw cofnod canolog er mwyn monitro datblygiad a gweld yn haws pwy allai fod ag angen cymorth gyda datblygiad proffesiynol parhaus.

Gwnaethom ddarllen cofnodion o gyfarfodydd tîm, a gwelsom fod pynciau perthnasol wedi'u trafod a bod aelodau'r tîm wedi cyfrannu. Roedd hyn yn golygu bod cyfarfodydd yn cael eu defnyddio i drosglwyddo newidiadau o ran arferion ac i annog y tîm i gyfathrebu.

Gwelsom nodiadau a oedd yn cadarnhau bod arfarniadau blynyddol ar gael i'r staff. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn defnyddio'r cyfarfodydd hyn i drafod gofynion hyfforddiant rheolaidd, materion perfformiad, a chefnogaeth yn eu swyddi. Dywedodd yr holl staff wrthym eu bod yn teimlo'n gyfforddus iawn yn mynd at y prif ddeintydd y tu allan i gyfarfodydd ffurfiol, a'i bod ar gael ac yn hygyrch mewn modd anffurfiol. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn derbyn cefnogaeth dda iawn yn eu swyddogaethau.

O ystyried nifer yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, dylid rhoi ystyriaeth i sicrhau bod trefniadau mwy effeithiol a rhagweithiol ar waith yn y practis ar gyfer monitro cydymffurfiad â rheoliadau a safonau perthnasol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant amlwg o ran hyn ar adeg yr arolygiad nesaf.

Ansawdd yr Amgylchedd

Roedd safle'r practis yn darparu amgylchedd diogel a hygyrch i gleifion dderbyn triniaeth.

Mae'r practis wedi'i leoli yng nghanol dinas Casnewydd. Nid oedd cyfleusterau parcio ar gael, ac roedd cyfyngiadau ar y lonydd y tu allan i'r practis, a oedd yn gwneud parcio'n anodd i gleifion. Roedd man aros am un awr a bae anabl ar gael i gleifion anabl gael parcio yn Devon Place. Roedd y practis wedi bod mewn cysylltiad â'r cyngor ynglŷn â'r anawsterau parcio ac wedi cynnal apwyntiadau ar y penwythnos pan fo llai o gyfyngiadau parcio. Roedd maes parcio talu ac arddangos ar gael ar Faulkner Road, a oedd tua deg munud i ffwrdd ar droed.

Roedd y practis yn cynnwys pedair deintyddfa (i gyd ar y llawr daear) a derbynfa, man aros, a thoiled gyda mynediad anabl ar y llawr daear. Roedd y thoiled i'w weld yn lân ac yn cynnwys offer golchi dwylo addas i atal croes-heintio.

Wrth arsylwi, gwelsom fod maint yr ystafell aros yn briodol o ystyried nifer y deintyddfeydd a'r cleifion sy'n mynychu. Roedd yr ystafell yn lân, yn daclus, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda, yn cael digon o olau, ac wedi'i hawyru'n dda. Roedd man gyda theganau ar gael lle gallai plant chwarae. Roedd teledu a radio ar gael yn y man aros i ddiddanu'r cleifion. Roedd allanfeydd tân wedi'u nodi'n glir.

Roedd grisiau'n arwain i fyny at brif fynedfa'r practis. Roedd cleifion ag anawsterau symudedd yn gallu mynd i'r adeilad trwy fynedfa yng nghefn yr adeilad ar lefel stryd, ac roedd ramp ar gael er mwyn gallu mynd i mewn yn haws. Er bod y coridorau'n ymddangos yn gul, rhoddodd y staff sicrwydd i ni fod cleifion â chadeiriau olwyn wedi gallu mynd i mewn i'r adeilad.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran profiad y claf, cyflenwi safonau, ac arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae manylion hwn i'w gweld yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym mhreactis deintyddol Devon Place yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Caiff y cynllun gwella, unwaith y caiff ei gytuno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC, a chaiff ei werthuso yn rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: Practis Deintyddol Devon Place

Dyddiad yr Arolygiad: 2 Chwefror 2015

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|-----------------------|---|--|------------------|-----------------|
| Profiad y Claf | | | | |
| Tudalen 7 | Dylai'r practis sicrhau bod y ddwy linell ffôn yn darparu gwybodaeth sydd yr un fath ac sy'n gyson ar gyfer cleifion, yn enwedig o ran gofal y tu allan i oriau gwaith. | Bydd neges yn ymwneud â gofal y tu allan i oriau gwaith ar beiriant ateb rhif 252238 cyn bo hir. | Jan Lear | 1 mis |
| Tudalen 8 | Dylai'r practis sicrhau bod gwybodaeth am sut i wneud cwyn ar gael yn rhwydd, ei bod yn cynnwys digon o fanylion, a'i bod yn gwbl amlwg i gleifion. | Wedi archebu ac arddangos taflenni yn ymwneud â chwynion yn barod. Wedi'i nodi ar y wefan hefyd. | Jan Lear | Wedi'i gyflawni |
| Tudalen 9 | Dylai'r practis sicrhau bod y trefniadau a'r amserlenni ar wahân i gleifion y GIG a chleifion preifat yn cael eu hamlinellu'n llawn | Gweithdrefn gwyno newydd wedi'i hysgrifennu i gynnwys hyn yn ogystal â manylion cyswllt y Cyngor Iechyd Cymuned. | R. Gill-Randall | Wedi'i wneud |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|--|---|--|------------------|-----------------|
| | yn y wybodaeth ynghylch gwneud cwyn. Dylai'r wybodaeth ynghylch gwneud cwyn gynnwys gwybodaeth hefyd am sut i gael eiriolaeth trwy'r Cyngor Iechyd Cymuned. | | | |
| Tudalen 9 | Dylai'r practis sicrhau bod y wefan yn cydymffurfio â chanllawiau 'Egwyddorion Hysbysebu'n Foesebol' y Cyngor Deintyddol Cyffredinol. | Wedi'i wneud yn barod. Manylion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – ar y wefan. | R. Gill-Randall | 1 mis |
| Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru | | | | |
| Tudalen 10 | Dylai'r practis sicrhau bod yr holl ymarferwyr deintyddol a staff gofal iechyd deintyddol yn diweddarau eu gwybodaeth a'u sgiliau mewn dadebru bob blwyddyn o leiaf yn unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru. | Mae ein hunig unigolyn nad yw'n cydymffurfio wedi cadw lle ar y cwrs hwn ers hynny. | | Wedi'i gyflawni |
| Tudalen 10 | Dylai'r practis sicrhau bod system ffurfiol ar waith ar gyfer newid cyffuriau sydd wedi dod i ben er mwyn sicrhau bod archwiliadau'n cael eu gwneud yn rheolaidd. | Caiff y cyffuriau yn yr oergell, yn ogystal â'r cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn y practis a'r car, eu harchwilio a'u cymeradwyo bob mis. | R. Gill-Randall | Wedi'i gyflawni |
| Tudalen 11 | Dylai'r practis sicrhau bod y staff yn cael gwared ar midazolam yn ddiogel ac yn briodol. | Llaesod cathod gyda'r dyddiad batsh a'r dyddiad dod i ben wedi'i nodi arni yn y practis i'w gwaredu. | R. Gill-Randall | Wedi'i gyflawni |
| Tudalen 11 | Dylai'r practis lunio asesiad ysgrifenedig o'r | Wedi'i ysgrifennu a'i anfon at y Rheolwr Arolygu trwy gyfrwng e-bost yn syth ar ôl yr arolygiad. | R. Gill-Randall | Wedi'i gyflawni |

| Rhif y Dudalen | Argymhelliad | Cam Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|------------------------------------|---|---|------------------|-----------------|
| | gwelliannau sydd angen eu gwneud er mwyn gwneud cynnydd o ran bodloni'r gofynion i sicrhau arferion gorau, yn ogystal â chynllun gweithredu, yn unol â WHTM 01-05. | | | |
| Tudalen 12 | Dylai'r practis sicrhau bod system awyru ddiogel a phriodol ar waith yn yr ystafell ddadheintio cyn gynted â phosibl, yn unol â chanllawiau WHTM 01-05. | Bydd hon yn cael ei gweithredu trwy gyfrwng ffan ffenestr uwchben y man glân yn ogystal â'r ffan wedi'i hailgomisiynu uwchben y man budr, h.y. n=2 ffan ar gyfer pob man. | R. Gill-Randall | 1 mis |
| Tudalen 12 | Dylid ail-leoli'r switsh ynysu y tu allan i'r parth rheoli. | Mae hyn wedi'i wneud ac yn cael ei weithredu yn unol â'r canllawiau. | R. Gill-Randall | Wedi'i gyflawni |
| Rheolaeth ac Arweinyddiaeth | | | | |
| Tudalen 13 | Dylai'r practis sicrhau bod pob polisi yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod staff yn cael gafael ar wybodaeth sy'n gywir a chyfredol. | Mae hyn wedi'i weithredu hefyd. | R. Gill-Randall | Wedi'i gyflawni |
| Ansawdd yr Amgylchedd | | | | |
| | Dim | | | |

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (wedi'i brintio): DR RACHAEL GILL-RANDALL

Teitl: Perchennog y Practis a'r Prif Lawfeddyg Deintyddol

Dyddiad: 09/03/15